

Adroddiad i'r:	Pwyllgor Craffu Perfformiad
Dyddiad y cyfarfod	10 Mehefin 2021
Aelod Arweiniol / Swyddog	Huw Hilditch-Roberts (Aelod Arweiniol Addysg, Plant a Phobl Ifanc) / Geraint Davies (Pennaeth Addysg Dros Dro)
Awduron yr adroddiad	Mari Gaskell a Joseph Earl
Teitl	Y Wybodaeth Ddiweddaraf am Drawsnewid Anghenion Dysgu Ychwanegol mis Mehefin 2021

1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

1.1. Mae'r adroddiad yn darparu'r wybodaeth ddiweddaraf ar y cynnydd a wnaed i sicrhau bod yr Awdurdod Lleol ac ysgolion yn barod i fodloni eu gofynion statudol o dan Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru), 2018.

2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

2.1. I ddarparu gwybodaeth am y camau a gymerwyd i sicrhau bod yr Awdurdod Lleol ac ysgolion yn barod i fodloni eu gofynion statudol o dan Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru), 2018 gan ddechrau ym mis Medi 2021.

3. Beth yw'r Argymhellion?

Pwyllgor Craffu:

- 3.1 fe'i gwahoddir i drafod manylion yr adroddiad hwn ac i nodi unrhyw agweddau ar y gwaith trawsnewid a allai elwa o archwiliad manwl yn y dyfodol; a
- 3.2 chadarnhau ei fod wedi darllen, deall ac ystyried yr Asesiad o'r Effaith ar Les (Atodiad 5) fel rhan o'i ystyriaethau.

4. Manylion yr Adroddiad

Cyd-destun

4.1. Bydd Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru), 2018 yn disodli'r Cod Ymarfer Anghenion Dysgu Ychwanegol, Cymru (2002) cyfredol. Bydd y Ddeddf newydd yn cael ei chefnogi gan reoliadau a Chod Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY). Mae'r Ddeddf yn disodli'r termau 'anghenion addysgu ychwanegol' (AAA) ac 'anawsterau dysgu a/neu anabledau dysgu' gyda'r term newydd 'anghenion dysgu ychwanegol' (ADY). Mae'r Ddeddf yn creu un system, gydag un cynllun statudol, y Cynllun Datblygu Unigol (CDU). Bydd y cynllun hwn yn disodli cynlluniau presennol, megis Cynlluniau Addysg Unigol, Datganiadau AAA a Chynlluniau Dysgu a Sgiliau.

Cynnydd

4.2 Rhanbarthol – Mae Sir Ddinbych yn parhau i weithio ar y cyd gyda chydweithwyr ar draws y rhanbarth a gyda chefnogaeth gan yr arweinydd Trawsnewid (Helen Smith). Yn ystod y 6 mis diwethaf, rydym wedi cwblhau adroddiad diweddar ar gyfer y rhanbarth sy'n dangos sut mae Sir Ddinbych yn gweithio tuag at weithredu'r diwygiadau ADY (**gweler Atodiadau 1, 2 a 3**). Mae nifer o weithgorau rhanbarthol yn parhau, gyda chynlluniau gweithredu yn cael eu cytuno gan arweinwyr cynhwysiant rhanbarthol. Mae Sir Ddinbych yn arwain ar y gweithgorau Addysg Heblaw yn yr Ysgol (EOTAS) a Phlant sy'n Derbyng Gofal.

4.3 **Hyfforddiant** - Mae staff ar draws ysgolion a Gwasanaethau Addysg Sir Ddinbych wedi cael cyfle i fynychu hyfforddiant Ymarfer sy'n Canolbwyntio ar yr Unigolion i'w paratoi ar gyfer dull diwygiedig ADY sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn. Rydym yn cynnal cyfarfodydd/gweithdai bob hanner tymor gyda chynrychiolwyr ysgolion i baratoi ysgolion ar gyfer y diwygiadau ADY. At hynny, mae Tîm Trawsnewid ADY Gogledd Cymru yn parhau i ddarparu hyfforddiant rhanbarthol. Mae modd i aelodau etholedig a budd-ddeiliaid eraill fanteisio ar hyfforddiant, ac mae wedi'i gynnwys yn **Atodiad 3**.

4.4 **Cyllidebau** - Mae cyllid ADY ysgolion bellach wedi'i ddirprwyo'n llawn i ysgolion fel y cytunwyd ar y fforwm cyllideb ysgolion – gan weithio ar gyfartaledd treigl 3

blynedd. Y nod yw caniatáu i ysgolion gynllunio'n fwy effeithiol i gefnogi dysgwyr y nodwyd bod ganddynt ADY, ac i fod yn ymatebol i anghenion pob dysgwr.

4.5 System TG – Ymunodd Sir Ddinbych, Sir y Fflint, Conwy a Wrecsam i gaffael system TG newydd a fydd yn eu galluogi i reoli'r prosesau ADY newydd. Yr enw arno yw ECLIPSE a Sir Ddinbych sy'n arwain y prosiect hwn. Wedi'i ddarparu gan OLM, datrysiaid llif gwaith sy'n seiliedig ar gwmwl yw ECLIPSE sy'n galluogi defnyddwyr i weithio'n fwy effeithiol p'un a ydynt yn mewngofnodi ar ffôn clyfar, llechen ddigidol neu gyfrifiadur. Bydd yn caniatáu gweithio ar y cyd wrth benderfynu a oes gan blentyn ADY, rheoli dogfennau'n effeithlon ar gyfer y dysgwyr hynny sydd ag ADY, monitro fframiau amser, dyddiadau cau ac adolygiadau blynyddol yn hawdd gyda rhybuddion penodol wedi'u hamseru i sicrhau bod dyletswyddau statudol yn cael eu cyflawni.

4.6 Cefnogi'r Dysgwr – Mae'r Tîm o Amgylch yr Ysgol wedi ei sefydlu er mwyn parhau i fodloni gofynion presennol y broses Asesu Statudol a Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg 2018 mewn perthynas ag ymyrraeth gynnar ac ataliaeth, a nodi anghenion dysgu ychwanegol yn gywir ac yn brydlon. Bydd yn sicrhau proses hyblyg, ymatebol a thryloyw a fydd yn darparu camau gweithredu clir i gefnogi datblygiad taith addysgol y dysgwr.

4.7 Darpariaeth – Rydym yn gweithio gydag ysgolion ar hyn o bryd i lunio eu darpariaeth, gan gynnwys ymyraethau a strategaethau maen nhw'n eu defnyddio i gefnogi dysgwyr gydag ADY a dysgwyr heb ADY. Bydd hyn wedyn yn caniatáu i ni, ynghyd ag ysgolion, gael dealltwriaeth glir pan fydd angen Darpariaeth Dysgu Ychwanegol ar blentyn, cwestiwn allweddol wrth benderfynu a oes gan blentyn ADY **(Atodiad 4)**.

4.8 Cynllun Datblygu Unigol – Fel rhan o'r gwaith trawsnewid ac i baratoi ar gyfer y ddeddfwriaeth newydd, rydym wedi bod yn treialu'r Cynllun Datblygu Unigol mewn detholiad bychan o ysgolion. Bydd y cynllun hwn yn disodli cynlluniau presennol, megis Cynlluniau Addysg Unigol, Datganiadau AAA a Chynlluniau Dysgu a Sgiliau. Bydd hyn yn sicrhau cysondeb a pharhad, yn ogystal â sicrhau bod darpariaeth a hawliau'n cael eu diogelu waeth pa mor ddrwg neu gymhleth yw'r anghenion.

4.9 Dogfennaeth – Mae dogfennau eraill yn cael eu datblygu, gan gynnwys 'Proffil y Dysgwr' (a gaiff ei gofnodi yn y diwedd ar system TG Eclipse). Bydd hyn yn cynnal

cefnogaeth, cynnydd a thargedau dysgwyr sydd angen cymorth wedi'i dargedu ond nad oes ganddynt ADY. Rydym yn gweithio mewn ysgolion ar hyn o bryd i greu protocol ADY/Ymgynnwys i ysgolion ei fabwysiadu.

4.10 Parodrwydd Ysgolion – Mae ysgolion wedi cael cefnogaeth rôl y Cydlynnydd ADY newydd, sydd bellach yn orfodol o 4 Ionawr. Rydym wedi darparu canllawiau anstatudol Llywodraeth Cymru ochr yn ochr â'n canllawiau atodol ein hunain. Mae ysgolion hefyd wedi bod yn cwblhau cerrig milltir GwE (mae'r rhain yn dargedau canllaw i fodloni gofynion y diwygiadau ADY) ar blatfform ar-lein G6 ac rydym hefyd yn cynnig cefnogaeth i ysgolion lle gofynnir amdano ynghyd â chynrychiolwyr GwE.

5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

5.1 Mae'r maes hwn o waith yn cyfrannu at wneud sir Ddinbych yn ardal lle mae pobl ifanc eisiau byw a gweithio a gyda'r sgiliau i wneud hynny. Mae hefyd yn cyfrannu at wneud Sir Ddinbych yn rywle y gall pobl ifanc flodeuo a chael y cychwyn gorau mewn bywyd waeth pa anghenion dysgu ychwanegol sydd ganddyn nhw.

6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

6.1. Mae TGCh CSDd bellach yn cefnogi Gwasanaethau Addysg gan weithredu system TG Eclipse. Cost sefydlu'r flwyddyn gyntaf yw £27,100.00. Mae wedi ei ariannu drwy grant AAA/ADY Llywodraeth Cymru. Caiff costau rheolaidd y system TG eu rhannu rhwng yr ALI ac ysgolion.

6.2. Mae'r ALI yn parhau i ddefnyddio'r Grant Trawsnewid ADY Rhanbarthol i gefnogi'r ALI ac ysgolion i baratoi ar gyfer y diwygiadau ADY. At hynny, mae ysgolion yn parhau i ddefnyddio cyllid clwstwr Trawsnewid ADY i gefnogi eu paratodau.

6.3 Seicolegwyr Addysg - Ar hyn o bryd mae capasiti staff yn faes risg gan fod gennym swydd wag sy'n anodd ei llenwi. Ynghyd â hyn, yn genedlaethol deallir y bydd llwyth gwaith cynyddol drwy gyflwyno, gweithredu ac ymgorffori'r diwygiadau ADY. Dylem fod yn ystyried cynyddu lefelau staffio i ystyried cynnwys yr ystod oedran estynedig o ymgynnwys disgyblion 0-25 oed.

7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o'r Effaith ar Les?

7.1. Gan adlewyrchu ar y broses asesu, gellir gweld pwyntiau cadarnhaol amlwg mewn sawl maes. Mae'r rhain yn cynnwys gwella canlyniadau i blant a phobl ifanc ag ADY. Gobeithio y bydd gan hyn oblygiadau hirdymor cadarnhaol i'r unigolion hynny sydd ag ADY a'u cymunedau ac mae hefyd yn fudd y gallai fod mwy o gyfleoedd ar gyfer swyddi a hyfforddiant. Nod y dull cyfannol sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn y system ADY statudol newydd yw bod yn fwy cynhwysol, a fyddai, gobeithio, yn annog pawb i ymgysylltu â'r prosesau cymorth er mwyn galluogi i blant a phobl ifanc ag ADY gyrraedd eu potensial, gan arwain at ymgysylltu â'u cymunedau. Mae'r rhwystrau sy'n bodoli gyda'r gymuned deithwyr wedi'u nodi fel maes sydd angen sylw a fydd yn cael ei archwilio gan dîm y prosiect. Mae gwaith i'w wneud hefyd o ran ymgysylltu yn y dyfodol, gan sicrhau bod yr holl fudd-ddeiliaid yn gallu cyfrannu at y prosiect parhaus. Un ffordd o fynd i'r afael â hyn fydd sefydlu fforwm partneriaeth rhanbarthol i rieni. Nod y prosiect yw hyrwyddo'r Gymraeg drwy fod mor ddwyieithog â phosibl yn y deunyddiau a gynhyrchir a'r systemau a gaffaelir, a hefyd yn yr ystyr bod y system ADY statudol newydd yn disgwyl y cymerir pob cam rhesymol i ddarparu darpariaeth yn y Gymraeg lle bo hynny'n bosibl. Gobeithio y bydd y newid i gyfarfodydd a hyfforddiant ar-lein yng ngoleuni pandemig Covid-19 yn cael effaith gadarnhaol ar y cyfan o ran Sir Ddinbych sy'n gyfrifol yn fyd-eang. Yr unig ganlyniad negyddol disgwylidig o'r prosiect fydd defnyddio gofod gweinydd ar gyfer y system TG ADY newydd yn y cwmwl (**Atodiad 5**).

8. Pa ymgynghoriadau sydd wedi'u cynnal gyda Chraffu ac eraill?

8.1. Bu trafodaethau (lle y bo'n berthnasol) ag undebau llafur a phenaethiaid yn gadarnhaol iawn. Rydym hefyd yn gweithio'n rhanbarthol i sefydlu partneriaeth rhieni fel fforwm i rannu a derbyn sylwadau ar y gwaith parhaus i'r diwygiadau ADY.

9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

9.1. Bydd costau yn cael eu cwrdd o gyllidebau dirprwyedig sydd eisoes yn bodoli i ysgolion, cyllideb addysg a hefyd cyllid grant sydd ar gael gan Lywodraeth Cymru.

10. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

10.1. Mae angen / bydd angen cynnal capasiti o fewn y tîm Seicoleg Addysg a thimau Anghenion Dysgu Ychwanegol a'i gynyddu o bosibl i sicrhau bod yr ALI yn bodloni'r holl ofynion statudol.

11. Pŵer i wneud y Penderfyniad

11.1. Mae pwerau mewn perthynas â'r materion yn yr adroddiad hwn yn unol ag:

- Adran 21 Deddf Llywodraeth Leol 2000;
- Adran 7 Cyfansoddiad y Cyngor